



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Diwygio Pennod 7 Polisi Cynllunio Cymru - Cynnal yr Economi

Dyddiad cyhoeddi: 28 Tachwedd 2011
Camau i'w cymryd by 5 Mawrth 2012

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn am gael eich safbwyntiau at ddiwygiad arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gynnal yr economi. Mae'r polisi cynllunio presennol ym Mhennod 7 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 4, Mawrth 2011). Mae'r polisi wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad ymchwil "Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy" a luniwyd gan Roger Tym a'i Bartneriaid ar y cyd ag Asbri Planning yn 2011. Rydym hefyd yn ymgynghori ar y strwythur drafft ar gyfer Nodyn Cyngor Technegol newydd a fydd yn rhoi arweiniad a chynghor manylach ar weithredu'r newidiadau arfaethedig i'r polisi. Caiff ymgynghoriad gwahanol ei gynnal ar y Nodyn Cyngor Technegol yn ddiweddarach yn 2012.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 5 Mawrth 2012. Gallwch ymateb drwy un o'r ffyrdd canlynol:

Ebost

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 3 a'i hanfon i: planconsultations-F@wales.gsi.gov.uk

[Cofiwch nodi "PCC drafft Pennod 7 - Cynnal yr Economi (Ymgynghoriad)" fel y pwnc.]

Post

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 3 a'i hanfon i'r cyfeiriad yn yr adran "Manylion Cyswllt" isod.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille a ieithoedd gwahanol o ofyn amdanynt.

Mae gwybodaeth berthnasol bellach ar gael yma: Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 4, Mawrth 2011) Pennod 7 <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw2010/?lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 3: Parthau Cynllunio Syml <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan3/?lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=cy>

Adroddiad Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy 2011 <http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/suseconrenewal/?lang=cy>

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen y Polisi Cynllunio
Yr Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

ebost: planconsultations-F@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut byddwn yn defnyddio'r safbwyntiau a'r wybodaeth a rowch i ni.

Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â materion yr ymgynghoriad yn gallu gweld unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon yn llawn. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn edrych arno i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn briodol. Os nad ydych am i ni gyhoeddi'ch enw neu'ch cyfeiriad, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig gyda'ch ymateb ac fe fyddwn yn eu dileu.

Efallai y caiff enwau neu gyfeiriadau sy'n cael eu dileu eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn meddwl y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth y mae cyrff cyhoeddus yn ei chadw, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn i gael gweld gwybodaeth rydym wedi'i chadw yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu p'un a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio. Os yw rhywun wedi gofyn i beidio â chyhoeddi'i enw a'i gyfeiriad, mae hyn yn ffaith bwysig i'w hystyried. Fodd bynnag, weithiau bydd rhesymau pwysig dros ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, hyd yn oed os yw'r person wedi gofyn am beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r person ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch datgelu'r wybodaeth.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

1. Mae'r dirwasgiad economaidd byd-eang wedi effeithio ar Gymru ynghyd â gweddill y DU, ac mae'n debygol o barhau i wneud am nifer o flynyddoedd eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn glir ei bod yn gwneud popeth yn ei gallu, gan ddefnyddio pob mesur polisi sydd ar gael, i fynd i'r afael ag achosion a symptomau'r dirwasgiad yng Nghymru.
2. Mae'r system gynllunio wedi'i datganoli i Weinidogion Cymru, ac mae'n hanfodol ei bod yn addas at ei diben ac yn cefnogi'n polisïau adnewyddu'r economi. O ganlyniad rydym am ddiweddarau Pennod 7 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) sy'n ymwneud â chynnal yr economi fel ei bod yn cyd-fynd yn agosach â'n polisïau economaidd ehangach, a cheisio sicrhau bod y system gynllunio'n hwyluso adnewyddu'r economi yng Nghymru yn fwy effeithiol.
3. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys cynigion i ailosod Pennod 7 PCC, yn ogystal â strwythur drafft y cynnwys ar gyfer Nodyn Cyngor Technegol (TAN) newydd. Mae Pennod 7 a'r strwythur TAN drafft, sydd wedi'u diwygio ac sy'n destun yr ymgynghoriad hwn, i'w gweld yn Atodiad 1 & 2.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

4. Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth ar gyfer adfer yr economi o dan y teitl Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd. Diben y strategaeth hon oedd mabwysiadu ffordd newydd o lunio a chyflawni polisïau, gan geisio ffordd newydd o arwain Cymru o'r dirwasgiad wedi'i llywio gan ymgynghoriadau helaeth a thystiolaeth newydd. Fel rhan o'r dull gweithredu newydd hwn, nododd Llywodraeth Cymru bod angen diweddarau'r polisi cynllunio. Yn arbennig, mae'r strategaeth yn datgan:

'Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol, rhaid i fusnesau yng Nghymru allu buddsoddi mewn datblygiadau newydd yn effeithlon ac yn amserol. Y llywodraeth sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer y datblygu newydd hwn, ac mae angen sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn hwyluso penderfyniadau effeithiol ac yn gosod costau dim ond lle mae manteision i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd yn eu cyfiawnhau.'

5. O ganlyniad comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil gan Roger Tym a'i Bartneriaid, ar y cyd ag Asbri Planning, i nodi'r newidiadau sydd eu hangen i'r polisi cynllunio yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy ym mis Mehefin 2011 ac mae'n sail i nifer o'r newidiadau arfaethedig i Bennod 7 y PCC, sy'n destun yr ymgynghoriad hwn.

Fframwaith y Polisi Cynllunio yng Nghymru

6. Cyhoeddir y PCC yn electronig ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ei bod yn haws ac yn gynt diweddarau penodau perthnasol, ac mae'r ddogfen eisoes wedi'i diweddarau sawl gwaith i adlewyrchu newidiadau i'r polisi mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, nid yw Pennod 7 y PCC wedi newid ers 2002 a bernir bod angen ei adolygu a'i aildrefnu er mwyn hwyluso adfer yr economi yng Nghymru.
7. Ar ôl ei chwblhau, caiff Pennod 7 ei hymgorffori yn y PCC a bydd yn cymryd lle'r canllawiau presennol ar gynllunio ar gyfer adnewyddu'r economi.
8. Mae'r PCC yn amlinellu polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru a chaiff ei ategu gan gyfres o TANs. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a chyfrifoldebau Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Beth yw'r prif newidiadau rydyn ni'n eu cynnig?

9. Roedd yr adroddiad Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy yn pwysleisio'r ffaith bod canfyddiad bod angen diweddarau'r polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd ac y dylid gosod y polisi yn erbyn dyletswydd gyfreithiol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae tair rhan i ddatblygu cynaliadwy, sef datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Pwysleisiodd yr ymchwil bod canfyddiad mewn rhai amgylchiadau bod y rhan economaidd ar ddatblygu cynaliadwy wedi cael ei hanwybyddu yn y broses gwneud penderfyniadau ar draul cynnydd economaidd a chymdeithasol yng Nghymru.
10. Nod y polisi diwygiedig, sy'n destun yr ymgynghoriad hwn, yw unioni'r canfyddiad hwn drwy bwysleisio pwysigrwydd datblygu economaidd yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy.
11. Mae'r polisi diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu dull gweithredu mwy holistaidd ar gyfer datblygu economaidd a chydabod bod y rhan fwyaf o ddefnydd tir yn cael rhyw fath o effaith economaidd. Dylai awdurdodau lleol ystyried felly yr effeithiau tebygol a gaiff pob math o ddatblygu a mabwysiadu dull gweithredu 'economi gyfan' yn hytrach na chanolbwyntio ar ddefnydd tir ar gyfer cyflogaeth fwy traddodiadol fel y nodir yng nghategoriâu B1-B8 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd).
12. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu bennu sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n briodol i ardaloedd lleol o nodweddion economaidd yr ardaloedd hyn a datblygu polisiau cynllun datblygu sy'n

briodol i ardaloedd lleol ar sail canfyddiadau gwybodus am newidiadau posibl, gan ystyried polisiau economaidd cenedlaethol ar yr un pryd.

13. Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth, mae'r polisi bellach yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal a diweddarau Adolygiadau Tir Cyflogaeth. Dylai'r adolygiadau hyn fod yn seiliedig ar asesiad realistig o'r galw am dir cyflogaeth a dylent bwysleisio achosion o orddarpariaeth a diffyg darpariaeth mewn cynlluniau datblygu.
14. Nod y polisi newydd yw hyrwyddo gweithio a phenderfyniadau mwy effeithiol o fewn a rhwng awdurdodau lleol. Diben y polisi yw sicrhau yr ymgynghorir â Swyddogion Datblygu Economaidd ar gynigion sydd â'r potensial o greu neu gadw swyddi, a bod dealltwriaeth lawnach o fanteision economaidd cynigion o'r fath. Yn yr un modd, mae gofyn i awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau y cynhelir Adolygiadau Tir Cyflogaeth ar lefel strategol briodol a'u bod yn cydweithredu i sicrhau bod datblygu'n digwydd yn y lleoliadau mwyaf priodol yng Nghymru, hyd yn oes yw hynny y tu hwnt i'w ffiniau.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

15. Mae'r cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn i'w gweld isod. Os ydych am ymateb **Ilenwch y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn Atodiad 3** a fydd yn eich galluogi i roi sylwadau ychwanegol wrth ymateb i'r cwestiynau hyn.
16. Efallai y caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar y we neu mewn adroddiad arall. Os nad ydych am i ni gyhoeddi'ch ymateb, rhaid i chi nodi hyn ar eich ymateb i'r ymgynghoriad.

Cw1	Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig o ddatblygu economaidd at ddibenion cynllunio?
Cw1(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw2	Ydych chi'n cytuno â'r amcanion ym mharagraff 7.1.2?
Cw2(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw3	Ydych chi'n cytuno bod angen Adolygiad Tir Cyflogaeth i gynnig y sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol?
Cw3(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw4	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol gynnal Adolygiadau Tir Cyflogaeth ar y cyd i adlewyrchu marchnadoedd economaidd lleol?
Cw4(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw5	Ydych chi'n meddwl y bydd y polisi ar ddatblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig yn helpu i hyrwyddo arallgyfeirio'r economi?

Cw5(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw6	Ydych chi o'r farn y bydd y polisi drafft yn cefnogi twf yr economi werdd?
Cw6(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw7	Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar gynnwys cynlluniau datblygu yn ddigon hyblyg i ganiatáu amgylchiadau lleol a newidiadau yn yr economi ehangach?
Cw7(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw8	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd, a chyd a rhanddeiliaid eraill, i gynllunio'n strategol ar gyfer darpariaeth tir cyflogaeth?
Cw8(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw9	Ydych chi'n cytuno â'r farn bod angen i benderfyniadau ar reoli datblygiadau adlewyrchu ystyriaethau economaidd yn fwy amlwg?
Cw9(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw10	Ydych chi'n meddwl y bydd y polisi cynllunio drafft, fel y'i cynigir, yn effeithio o ran hybu proffil materion economaidd fel rhan o'r broses rheoli datblygu?
Cw10(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw11	Ydych chi'n cytuno â'r rhestr o ffactorau allweddol i'w hystyried ym mharagraff 7.6.1 wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio?
Cw11(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw12	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol edrych yn ffafriol ar geisiadau datblygu economaidd nad ydynt yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu os yw'r manteision economaidd yn fwy na unrhyw effeithiau andwyol?
Cw12(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw13	Ydych chi'n cytuno â'r penawdau bras y dylai'r Nodyn Cyngor Technegol fynd i'r afael â nhw?
Cw13(b)	Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?
Cw14	Pa ganllawiau pellach hoffech chi eu gweld yn y Nodyn Cyngor Technegol drafft?
Cw15	Rydym wedi holi nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, nodwch nhw yma.